

## Crynodeb:

Ymgyrch yw Llwyddo'n Lleol 2050 sydd â chymelliant brwdfrydig i herio damcaniaethau ystrydebol nad oes modd i bobl ifanc, sy'n lleol i Fôn a Wynedd barhau i fyw yn y ddwy Sir, a llwyddo yr un pryd.

Un o uchafwyntiau'r cynllun hyd yn hyn yw canlyniad parhaus ein cynllun 10 wythnos a gynhaliwyd dros gyfnod yr Haf. Cynllun oedd yn cynorthwyo 14 unigolyn ledled y ddwy Sir i ddwyn hadyn syniad yn gynllun busnes ffynianus. Roedd y cynllun yn cynnwys cyfraniad o £1,000 ochr yn ochr ag arbenigedd mentoriaid lleol, a chefnogaeth gyson yr Hwb Menter. Mae cynlluniau'r Ymgyrch yn parhau i gefnogi rhai o'r unigolion yma i ddatblygu eu mentrau ymhellach.

Rol y swyddog fydd arwain a chydlynu cyfleon i griwiau newydd o entrepreneuriaid ifanc gymryd rhan mewn cynlluniau 10 wythnos o Ionawr 2021 ymlaen. Bydd ffocws yma ar sectorau twf yn yr ardal a bydd y cynllun yn cynnwys yr angen i:

- Recriwtio grwpiau o entrepreneuriaid newydd yn rheolaidd (e.e. bob 10 wythnos)
- Cydlynu sesiynau perthnasol ar gyfer y grwpiau gyda mentoriaid lleol (e.e. ffrwdathon byw ar gyfryngau cymdeithasol)
- Sicrhau cynnwys cyson drwy'r cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal a chyfryngau eraill amrywiol, digidol a thraddodiadol. Mae'n **hanfodol** fod hyn yn parhau ac yn datblygu (e.e. : Podlediad "Cwblhau gradd Prifysgol o sied, mewn gardd, yn Nefyn" - Sgwrs am y byd ffasiwn rhwng Swyn Ann Rice ac Eurgain Lloyd).
- Adrodd ar gynnydd y gwaith yn rheolaidd i reolwyr mewnol a rhanddeiliaid / partneriaid allanol (e.e. Cynghorau Sir Mon a Gwynedd, Llywodraeth Cymru, Grwpiau Gweithredu Lleol Mon a Gwynedd ayyb)
- Cydweithio gyda phartneriaethau amrwyol i sicrhau i sicrhau fod pobl ifanc yr ardal yn cael mynediad at wybodaeth, gwasanaethau a chefnogaeth sy'n gysylltiedig, neu am eu galluogi, i lwyddo'n lleol.

Caiff y swydd a'r prosiect eu hariannu drwy raglenni LEADER Ynys Môn a Gwynedd, sy'n cael eu cyllido drwy Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD), Ymddiriedolaeth Elusennol Mon, Cyngor Gwynedd a'r Awdurdod Datgysylltu Niwclear (NDA).

<https://www.mentermon.com/priosectau/llwyddon-lleol-2050/>

Facebook @ <https://www.facebook.com/Llwyddon-Lleol-2050>

Twitter @ <https://twitter.com/LleolN>

Instagram @ llwyddonlleol

Podlediadau @ <https://anchor.fm/mentermon>



Ymddiriedolaeth  
Elusennol Ynys Môn  
*Isle of Anglesey  
Charitable Trust*

